MUSIC.THEATRE.WALES.



## Music. Theatre. Wales. - Rydym yn recriwtio!
## Rheolwr Cyfathrebu a Marchnata

Mae Music Theatre Wales yn chwilio am gyfathrebwr o'r radd flaenaf ar gyfer ein swydd newydd, Rheolwr Cyfathrebu a Marchnata, i reoli datblygiad a gweithredu strategaeth cyfathrebu a marchnata ein gwaith.

I fod yn llwyddiannus yn y rôl hon fe fyddwch yn berson sy'n meddwl yn greadigol ac yn strategol, a bydd gennych brofiad a sgiliau dangosadwy ym meysydd marchnata'r celfyddydau, datblygu cynulleidfa ac ymgysylltiad cymunedol.

Bydd gennych ddealltwriaeth o ddulliau marchnata digidol a thraddodiadol, byddwch yn hyderus mewn rôl Cysylltiadau Cyhoeddus a chyfathrebu, ac yn meddu ar y sgiliau i arwain ar ein cynnwys digidol a'r cyfryngau cymdeithasol. Chi fydd hyrwyddwr y brand, yn tynnu'r gwahanol gyfathrebiadau, mewnol ac allanol, o dan un hunaniaeth gan weithio i godi proffil MTW o fewn Cymru, y DU ac yn rhyngwladol. Byddwch yn arwain artistiaid, cynulleidfaoedd a chymunedau at ein gwaith.

Swydd ran-amser yw hon, gyda deiliad y swydd yn gweithio 3 diwrnod yr wythnos ar gyflog o £16,800 y flwyddyn (£28,000 FTE).

Mae'r rôl yn galw am ddull hyblyg o weithio, gyda rhai cyfnodau'n golygu mwy o ymrwymiad i sicrhau llwyddiant y prosiect dan sylw. Darperir TOIL (amser rhydd i ddigolledu staff) i bob aelod o'r staff os bydd angen gweithio oriau ychwanegol yn ystod cyfnodau prysur.



## Cefndir y Cwmni

Mae MTW wedi bod yn rym dros newid a datblygiad ym myd yr opera yn y DU, gan greu cyfleoedd trawsnewidiol ar gyfer artistiaid a chynulleidfaoedd i greu a chael mynediad at opera gyfoes, a hynny'n aml am y tro cyntaf. Rydym wedi gweithio gyda rhai o brif gyfansoddwyr ein cyfnod; rydym wedi creu 53 o gynyrchiadau byw, yn cynnwys 23 premiere byd, ac yn 2021 cychwynnodd y cwmni ar daith newydd, gan ofyn beth sydd angen i opera ei wneud YN AWR er mwyn chwarae rhan allweddol yn y bywyd cyfoes.

Mae MTW yn rym sy'n cael ei ganmol yn fawr ym maes opera newydd yn y DU. Yn ddiweddar, cafodd y cynhyrchiad y buom yn ei deithio yn 2022, sef Violet gan Tom Coult ac Alice Birch, ei enwebu ar gyfer gwobr y Classical Music IVORS – ei bedwerydd enwebiad am wobr glodfawr, yn dilyn Gwobrau'r UK Theatre, Gwobrau'r International Opera, a Gwobrau'r South Bank Sky Arts. Enillodd un o'n darnau digidol cyntaf ar gyfer New Directions Wobr Ffocws Gŵyl Ffilm Cymru yn 2022.



A ninnau â hanes o greu gwaith arloesol, rydym wedi cymhwyso'r ffordd hon o feddwl i ni ein hunain – gan ofyn pa werth y gallwn ddod i gymdeithas fel gwneuthurwyr opera newydd? Ein hateb yw ail-ddychmygu beth yw opera, a chreu gwaith sy'n wir yn adlewyrchu Cymru a'r DU fel y maent yn awr. Byddwn yn cyflawni hyn trwy ofyn i'r union artistiaid sydd wedi cael eu hanwybyddu neu eu heithrio o fyd yr opera i ddod â'u sgiliau, gweledigaeth, straeon a cherddoriaeth i ffurf sy'n galw'n daer am gyfeiriad newydd a chynulleidfa newydd. Ein nod yw dod ag opera'n ôl i gysylltiad â rhagor o bobl a rhagor o gymunedau.

## Ein Gwaith

Mae Music Theatre Wales yn ail-ddychmygu opera.
Rydym yn gofyn Beth yw Opera? Pwy sy'n ei Greu? ac I Bwy y mae e?

### Gosod Cynhwysiant ar Flaen ac wrth Galon ein Strategau a'n Hymgyrchoedd

Rydym wedi bod yn ail-ddychmygu sut rydyn ni'n mynd ati i ymrwymo pobl â'n gwaith. Mae ein dull wedi datblygu'n llai dibynnol ar drafod ac yn fwy holistaidd, gan gysylltu ar lefel ddyfnach â'r bobl rydym yn cydweithio a rhannu ein gwaith â hwy, ac mae hyn yn galw am agwedd wahanol tuag at ein cyfathrebiadau ar gyfer marchnata digwyddiadau.

Rydym yn awyddus i sicrhau ein bod yn rhoi blaenoriaeth i'r bobl a anwybyddwyd yn hanesyddol ond y mae ein gwaith bellach wedi ei fwriadu'n benodol ar eu cyfer. Unwaith mae'r ymgysylltiad yn ei le, byddem wedyn yn cychwyn ar gynllunio ymgyrch fwy traddodiadol i ymgysylltu â'n cynulleidfa arferol, gan sicrhau eu bod hwythau hefyd yn cael mynediad.

Byddwn yn cymryd rhan mewn sgyrsiau cymunedol fel ymarfer gwrando ac fel trafodaeth ddilys – heb ragdybio bod artist arbennig yn siarad ar ran cymuned arbennig, ond yn hytrach yn clywed gan bobl o fewn y cymunedau sydd, yn hanesyddol, wedi cael eu heithrio.


Mae dau brif edefyn i'n gwaith:

### NEW DIRECTIONS

Mae popeth ry'n ni'n ei wneud yn gysylltiedig â mynd â chrefft creu opera i




Gyfeiriadau Newydd. Rydym yn gweithio gydag artistiaid a chymunedau i ddatblygu gwaith



newydd a dulliau newydd o weithio. Mae ein prif ffocws ar gydweithio gyda'r rhai nad ydynt hyd yma wedi bod yn rhan o draddodiad yr opera, ond a chanddynt gymaint i'w gynnig fel storïwyr mewn cerddoriaeth. Gyda'n gilydd rydym yn creu dulliau newydd o gyflwyno opera – fel perfformiad byw mewn nifer o wahanol ffurfiau a nifer o leoliadau gwahanol; fel gwaith digidol; fel celfyddyd stryd; fel digwyddiadau cymunedol, ac mewn dulliau nad oes neb eto wedi eu dychmygu.

# FUTURE. DIRECTIONS.

Rhaglen sy'n tynnu at ei gilydd grŵp o bobl ifanc rhwng 16 a 25 oed sy'n niwro-nodweddiadol a niwroamrywiol, a chanddynt anawsterau dysgu ac awtistiaeth, i greu opera ddigidol sy'n rhoi llais i bwy ydyn nhw. Caiff gwaith y bobl ifanc ei greu mewn cydweithrediad â phobl broffesiynol ym meysydd cerddoriaeth, theatr, opera a ffilm, a'i gyflwyno fel cynhyrchiad Music Theatre Wales.



Pobl ifanc yw'r dyfodol, ac rydym yn awyddus i'w hysbrydoli i weld sut y gall opera ymestyn eu creadigrwydd, cryfhau eu synnwyr o hunaniaeth bersonol, a rhoi llais iddynt yn y byd. Ar yr un pryd, bydd gwaith y Cwmni Ifanc yn helpu i ddatblygu agwedd MTW ei hun tuag at greu gwaith newydd.


Prosiect partneriaeth gyda Hijinx yw Future Directions.

**Lleoliad**

Mae swyddfa MTW wedi'i lleoli yng Nghanolfan Gelfyddydau Chapter, Caerdydd.

https://www.chapter.org/
Google maps

## Brîff: Rheolwr Cyfathrebu a Marchnata




Ydych chi'n angerddol dros y celfyddydau a chynhwysiant, ac yn fedrus wrth adeiladu cysylltiadau a chynulleidfaoedd newydd, a meithrin rhai sy'n bodoli eisoes?

Fel ein Rheolwr Cyfathrebu a Marchnata, byddwch yn gweithio'n agos gyda'r Cyfarwyddwr a'r Rheolwr Cyffredinol ac yn cael eu cefnogaeth hwy yn eich rôl. Bydd y swydd hon yn hyrwyddo ein rhaglenni ac yn cyflenwi ein cynlluniau i ddatblygu cynulleidfa ac ymgysylltu â'r gymuned. Byddwch yn creu a rhannu cynnwys deniadol, gyda pheth ohono'n cael ei greu ar y cyd â thimau creadigol. Byddwch yn ysgrifennu a dylunio cylchlythyron, ebyst marchnata, a chynnwys ar gyfer y cyfryngau cymdeithasol.

Byddwch yn cefnogi'r gwaith o gynhyrchu ffilmiau byr ar gyfer ein gwefan a'n sianel YouTube, a bydd hyn yn golygu cyfathrebu â chrëwyr cerddoriaeth, timau creadigol a'n sefydliadau partner. Byddwch yn cymryd yr arweiniad ar ymgysylltu pobl â'n rhaglen, yn cynnwys digwyddiadau byw a digidol, monitro effaith yr ymgyrchoedd marchnata a chyfathrebu, a defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol i fonitro ac asesu'r canlyniadau yn erbyn ein nodau ymgysylltu. Byddwch yn ymchwilio ac yn gweithio i ddatblygu prosesau gwerthuso MTW ochr yn ochr ag ymgynghorydd gwerthuso, y Cyfarwyddwr, a'r Rheolwr Cyffredinol.

Gan y byddwn, yn fuan, yn creu gwefan newydd, byddwch chi'n arwain ar y prosiect hwn, yn ogystal â rheoli'r wefan wrth symud ymlaen, i greu cynnwys a diweddariadau.

Byddwch yn rheoli a chynnal a chadw deunyddiau a basau data marchnata a chyfathrebu, ac yn gweithio ochr yn ochr â'r wasg a'r cyfryngau, artistiaid creadigol, grwpiau cymunedol, ac ystod o gyflenwyr.

## Sut y byddwch chi'n gweithio

Bydd y Rheolwr Cyfathrebu a Marchnata yn atebol i'r Rheolwr Cyffredinol, gan weithio'n agos gyda'r Cyfarwyddwr yn ogystal â gydag ystod o lawryddion.



Rydym yn dîm bychan yn gweithio mewn dull hybrid o'n swyddfa yng Nghanolfan Gelfyddydau Chapter, Caerdydd. Rydym yn gyflogwr hyblyg, a gall y swydd hon weithio fel rôl i gyfuno gweithio o gartref ac o'r swyddfa. Ar y dechrau, bydd deiliad y swydd yn gweithio'n rhan amser, am dri diwrnod yr wythnos. Byddwn yn adolygu'r cytundeb hwn yn rheolaidd, gyda'r posibilrwydd o'i addasu os teimlir fod hynny'n angenrheidiol i sicrhau bod y cwmni'n cael ei reoli'n dda.

Gan fod MTW wedi ei leoli yng Nghymru, a chanddo ymrwymiad cryf i'n polisi iaith Gymraeg, mae'r gallu i gyfathrebu yn Gymraeg yn ddymunol iawn ar gyfer y swydd hon. Bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn cael eu hannog a'u cefnogi i ddatblygu sgiliau siarad Cymraeg fydd yn eu galluogi i hyrwyddo a goruchwylio ein cynlluniau marchnata a chyfathrebu dwyieithog.

## Prf Gyfrifoldebau

Poder, os gwelwch yn dda, mai pwrpas y Swydd-ddisgrifiad hwn yw rhoi trosolwg i chi o'r swydd – nid yw'n rhestr gynhwysfawr o dasgau'n ymwneud â'r gwaith.

### Cynllunio a Chyflenwi

- Datblygu, a rhoi ar waith, strategaeth cyfathrebu, marchnata ac ymgysylltu newydd a dylanwadol ar gyfer MTW, gan roi sylw arbennig i ddulliau newydd a chynhwysol o gyrraedd cynulleidfaoedd a chymunedau amrywiol, a chreu cysylltiadau ystyrlon gyda hwy.
- Gweithio gyda'r tîm a'r ymgynghorydd gwerthuso i greu a chyflenwi strategau gwerthusol, gan wreiddio'r deilliannau a fwriadwn gyda data sy'n wybyddus ac yn fesuradwy.
- Gwneud y defnydd gorau posibl o effaith ein gwefan, llwyfannau digidol, postiadau cyfryngau cymdeithasol, a thechnegau wrth ymgysylltu â chynulleidfaoedd a chymunedau amrywiol.
- Lle penderfynir fod angen i ni weithio gyda phobl (dylunwyr, darlunwyr, rheolwyr ymgyrchoedd ac ati) a chanddynt brofiad byw o brosiect, bydd angen ymchwilio i bobl greadigol perthnasol a chreu cyfarwyddiadau.



### Ymgysylltiad

- Creu ymgyrchoedd dilys, ymgysylltiol, wedi eu ffocysu ar y gymuned, sy'n cyrraedd y cynulleidfaoedd perthnasol, yn hytrach na dechrau ar gynllunio ymgyrchoedd cookie-cutter.
- Datblygu ymgyrchoedd hygyrch a chynhwysol sy'n cyrraedd cynulleidfaoedd eang ac yn darparu gwybodaeth berthnasol cyn ac yn ystod y cynyrchiadau a'r prosiectau.
- Gweithio'n agos gyda'r timau creadigol i sicrhau bod y cynnwys a'r negeseuon yn berthnasol i'r cynhyrchiad/prosiect a'r cynulleidfaoedd y bwriedir eu cyrraedd.
- Cydweithredu gyda sefydliadau partner a gyda sefydliadau allai fod â diddordeb ym mhob prosiect.

## Ymgyrchoedd

- Cynllunio a gweithredu ymgyrchoedd marchnata i greu cynnwys ystyrlon sy'n ymestyn cyrhaeddiad, yn cynnwys ymgysylltiad â chynulleidfaoedd byw a digidol, a dosbarthu ein cynyrchiadau digidol mewn modd effeithiol.
- Rheoli cyfathrebiadau i restr bostio MTW, gan gadw'r rhestr yn gyfredol a sicrhau ei bod yn cydymffurfio â deddfwriaeth GDPR. Tyfu'r rhestr bostio hon fel rhan o gynllun marchnata ehangach MTW.
- Rheoli hysbysebion, deunyddiau print, gohebiaeth uniongyrchol ac ymgyrchoedd marchnata.
- Cyflenwi ymgyrchoedd ar lawr gwlad a thrwy'r cyfryngau cymdeithasol.
- Gweithio mewn cydweithrediad â sefydliadau partner i greu dull ar y cyd o gynllunio ymgyrchoedd lle bo hynny'n berthnasol.




## Brand a Hyrwyddo

Rheoli brand MTW, ei genhadaeth a'i hunaniaeth weledol. Mae hyn yn cynnwys dylunio a chynhyrchu asedau a deunyddiau marchnata, a gweithio gyda'n dylunwyr gwe allanol i gadw gwefan MTW yn gyfredol a chreu cynnwys unigryw sy'n denu pobl at ein gwefan.

## Cysylltiadau Cyhoeddus, a'r Cyfryngau Digidol a Chymdeithasol

- Creu a chyflenwi cynlluniau i'r wasg a chyfathrebiadau y gellir eu gwireddu i gyrraedd y cynulleidfaoedd a'r cymunedau cywir ar gyfer pob un o'n prosiectau. Cynhyrchu, golygu a chyhoeddi cynnwys digidol newydd a chynnwys o archifau digidol MTW ar gyfer eu rhannu drwy ein gwefan, a'n sianeli cymdeithasol a digidol.
- Datblygu, cynnal a diweddaru postiadau ar y cyfryngau cymdeithasol, yn cynnwys YouTube, Instagram, X, Facebook, LinkedIn, a Linktree.
- Cysylltu â llawryddion – artistiaid, cyfarwyddwyr, dylunwyr graffig, gwneuthurwyr ffilm, ffotograffwyr, cyfieithwyr ac eraill – i gynhyrchu a dosbarthu cynnwys.
- Mewn cydweithrediad â'r Cyfarwyddwr ac artistiaid, ysgrifennu copi am gynyrchiadau a phrosiectau newydd.
- Bod yn eiriolwr dros Music Theatre Wales.
- Gweithio gydag ymgynghorwyr Cysylltiadau Cyhoeddus llawrydd (os yn berthnasol) i gael cymaint o sylw ar y cyfryngau ag y bo modd ar gyfer pob cynhyrchiad a digwyddiad, digidol a byw.



## Adnoddau

- Mewn cydweithrediad â'r Rheolwr Cyffredinol, rheoli a monitro cyllidebau marchnata a chyfathrebu mewn modd effeithiol, gan sicrhau gwerth am arian trwy gael amcanbrisiau cystadleuol gan gyflenwyr allweddol.
- Mewn cydweithrediad â'r Rheolwr Cyffredinol, datblygu a dylunio pecynnau adnoddau a galwadau agored ar gyfer prosiectau penodol, a chynorthwyo gyda recriwtio rhai i gymryd rhan yn ôl yr angen.

## Dadansoddi Data, Gwerthuso ac Adrodd yn Ôl

- Gweithio gyda'r Rheolwr Cyffredinol ar werthuso pob prosiect, yn cynnwys proffilio cynulleidfaoedd, sylw ar y cyfryngau, ac effaith economaidd, gyda dadansoddiad cryf o ddata ac yn y blaen.
- Darparu diweddariadau cyson i'r Rheolwr Cyffredinol a'r Cyfarwyddwr, a mynychu cyfarfodydd yn ôl yr angen.
- Gweithio oddi mewn i brosesau datblygu gwerthuso MTW, gan greu ymgyrchoedd dan arweiniad deilliannau trwy ddefnyddio prosesau gwerthuso a chyfathrebu i adeiladu mewnwelediad i gynulleidfaoedd, a dylanwadu ar strategaeth yn y dyfodol.
- Cyfrannu at adrodd yn ôl i Gyngor Celfyddydau Cymru.

## Arall

- Rydym yn defnyddio Canva Pro ar gyfer ein dylunio graffig.
- Mae aelodaeth o'r AMA yn gynwysedig fel rhan o'r swydd hon.
- Glynu at bolisïau a gwerthoedd perthnasol y sefydliad, yn cynnwys Iechyd a Diogelwch, Diogelu, yr Iaith Gymraeg, Amgylcheddol, EDI, ac eraill i'w darparu fel rhan o'r broses ymgynefino.
- Unrhyw ddyletswyddau eraill sy'n gweddu i gyfrifoldebau'r swydd.

## Manyleb Person

Dylech sicrhau bod eich cais yn ymateb yn uniongyrchol i'r meini prawf hyn, gan y bydd y panel sy'n dewis y rhestr fer yn asesu yn eu herbyn.

| | Hanfodol | Dymunol |
|---|---|---|
| **PROFIAD** | Record brofedig o ddatblygu a rheoli ymgyrchoedd marchnata a'r cyfryngau cymdeithasol, gan greu cynnwys creadigol ac apelgar drwy sianeli digidol, yn cynnwys y cyfryngau cymdeithasol a'r dulliau mwyaf effeithiol o gyfathrebu drwyddynt. | Profiad o weithio ar ymgyrchoedd marchnata a chyfathrebu o fewn y celfyddydau, yn cynnwys marchnata digidol. |
| | Profiad o greu a chynhyrchu deunydd digidol, yn cynnwys fideo a chopi ar gyfer y wefan a'r cyfryngau cymdeithasol, a phrofiad o olygu ffotograffau. | Gwybodaeth o GDPR a deddfwriaeth diogelu data. |
| | Y gallu i weithio gyda systemau rheoli cynnwys a systemau ebost (rydyn ni'n defnyddio mailchimp) | Gwybodaeth o gyd-destun y celfyddydau, diwylliant a'r cyfryngau yng Nghymru. |
| | Profiad o reoli gwefannau gyda dealltwriaeth o SEO a Google Analytics. | Profiad o reoli cyllideb prosiect. |

| | Hanfodol | Dymunol |
|---|---|---|
| **PROFIAD** | Profiad a dealltwriaeth o ymestyn cyrhaeddiad ac ymgysylltiad trwy ddosraniad a thargedu organig ac â thâl. | |
| | Profiad o goladu a dehongli data, gan ei ddadansoddi ac adrodd yn ôl i gydweithwyr. | |
| | Profiad o ddatblygu negeseuon ar gyfer gwahanol gynulleidfaoedd a chymunedau, gan greu cynnwys ystyrlon ar gyfer gwahanol bobl. | |
| | Rheoli cyflenwyr ac asiantaethau, yn cynnwys cysylltu â llawryddion | |
| **SGILIAU** | Meddyliwr creadigol sy’n gallu darparu cynnwys a chyfathrebiadau ystyrlon, dan arweiniad ein cenhadaeth, ac wedi ei ffocysu ar y gynulleidfa. | Y gallu i ddeall tueddiadau mewn cynnwys digidol a’r cyfryngau cymdeithasol |
| | Agwedd gydweithredol tuag at waith tîm, gyda’r gallu i gyfathrebu syniadau, gan sicrhau bod pawb yn cael gwybod beth yn union sy’n digwydd. | Dealltwriaeth o Ddylunio Graffig effeithiol. |

| | Hanfodol | Dymunol |
|---|---|---|
| SGILIAU | Y gallu i adeiladu perthnasoedd cryf ac effeithiol, a meddu ar sgiliau gwrando cymdeithasol o'r radd flaenaf. | Y gallu i gyfathrebu drwy gyfrwng yr iaith Gymraeg, ar lafar ac yn ysgrifenedig. |
| | Sgiliau ysgrifennu copi o'r radd flaenaf. | |
| | Sgiliau ardderchog mewn golygu fideos a ffotograffau, a gwybodaeth dda o fformatau cyfryngau digidol a HTML. | |
| | Safon uchel o sgiliau cyfrifiadurol a rhoi sylw gofalus i fanylion | |
| | Sgiliau cryf i drefnu a rheoli prosiect, ynghyd â'r gallu i ymdopi â nifer o wahanol flaenoriaethau, dyddiadau terfyn a rhanddeiliaid. | |
| | Y gallu i fod yn ddigyffro, teg, gonest a dibynadwy yn wyneb gwrthdaro blaenoriaethau. | |
| | Y gallu i gadw'n gyfredol ar y datblygiadau a'r cyfleoedd diweddaraf ar draws pob cyfathrebu ac ymgysylltiad yn y celfyddydau. | |

| | Hanfodol | Dymunol |
|---|---|---|
| **RHINWEDDU PERSONOL** | Person egnïol, hyderus, sy'n gallu gwneud penderfyniadau a datrys problemau mewn dull creadigol, gan ddefnyddio'u synnwyr cyffredin a'u doethineb eu hunain pan fo angen. | |
| | Yn credu'n angerddol bod opera newydd a theatr gerddoriaeth, byw a digidol, yn gallu denu cynulleidfa lawer ehangach a mwy amrywiol, ac y gellir rhoi mynediad atynt, a mwynhad ohonynt, i bawb. | |
| **CYMWYSTERAU** | Cyfuniad o gymwysterau perthnasol a/neu brofiad. | Cymhwyster yn yr iaith Gymraeg. |

## Cydraddoldeb A Chynhwysiant

Yn Music Theatre Wales rydym wedi ymrwymo i gyflawni gwell cydraddoldeb fel sefydliad ac fel cyflogwr, a'n nod yw sicrhau nad oes neb yn cael eu trin yn llai ffafriol oherwydd bod ganddynt nodwedd warchodedig. Credwn fod hyn yn fater o gyfiawnder cymdeithasol a hawliau dynol, ac nad yw cwotâu yn helpu i achosi newid os nad yw diwylliannau'n newid o fewn y sefydliadau. Mae newid ar droed o'r bôn i'r brig yn ein sefydliad ni – yn y gwaith rydym yn ei greu a'r bobl sy'n ei greu; y bobl rydym yn eu cyrraedd; bwrdd yr ymddiriedolwyr a'n staff.

Gallwch ddarllen ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol llawn yma.




**Telerau**

Rheolwr Llinell: Y Rheolwr Cyffredinol

Cytundeb: Swydd barhaol (3 mis o gyfnod prawf)

Oriau: Rhan-amser, 3 diwrnod yr wythnos (21 awr yr wythnos)

Lleoliad: Chapter, Caerdydd – gellir gweithio mewn dull hybrid

Cyflog / Buddion: £16,800 y flwyddyn (£28,000 FTE)

Mae MTW yn cynnig cynllun pensiwn yn y gweithle trwy Nest a'r Rhaglen Cymorth i Weithwyr. Mae MTW yn ymrwymo i gefnogi datblygiad proffesiynol parhaus, a byddwn yn gweithio'n agos gyda deilydd y swydd i sicrhau ein bod yn cwrdd â'u hanghenion yn y maes hwn.

Gwyliau: 25 diwrnod y flwyddyn yn ogystal ag 8 diwrnod o wyliau banc a gwyliau cyhoeddus (pro rata).



## SUT I YMGEISIO

I gyflwyno cais, gofynnwn i chi anfon y canlynol atom:

- Eich CV cyfredol yn rhoi sylw i'ch profiad perthnasol, sgiliau a chymwysterau
- Llythyr atodol yn manylu ar eich addasrwydd ar gyfer y swydd, a sut y byddech yn mynd i'r afael â chyfrifoldebau'r rôl (dim mwy na dwy dudalen)
- Enwau a manylion cyswllt 2 berson i roi geirda i chi (gellir cynnwys y rhain yn eich CV neu yn eich llythyr atodol)
- Ffurflen Monitro Cyfleoedd Cyfartal, i'w chwblhau ar-lein yma. Gofynnir i chi gadarnhau yn eich llythyr atodol neu neges ebost eich bod wedi cwblhau'r ffurflen hon.

**Dyddiad cau:** Dydd Mercher 13 Rhagfyr 2023, 6yh

**Cyfweliadau:** 19–21 Rhagfyr 2023, yn y gobaith y gall y person a benodir ddechrau cyn gynted â phosibl ym mis Ionawr 2024.

Dylid anfon ceisiadau at **kathryn@musictheatre.wales** erbyn y dyddiad cau.

Disgwyliwn y bydd y cyfweliadau'n digwydd wyneb yn wyneb yn ein swyddfa yng Nghanolfan Chapter, Caerdydd, ond mae'n bosibl y cynhelir hwy dros Zoom.

## Amrywiaeth, Cydraddoldeb A Mynediad

Os hoffech gyflwyno'r cais mewn fformat gwahanol, byddem yn hapus i wneud trefniadau. I drafod hyn, neu i gael sgwrs am unrhyw anghenion mynediad neu gynhwysiant ychwanegol, neu unrhyw addasiadau rhesymol eraill, cysylltwch â kathryn@musictheatre.wales.

Mae MTW wedi ymrwymo i fod yn gyflogwr cyfle cyfartal, ac i wella ei amrywiaeth er mwyn adlewyrchu'r cymunedau mae'n eu gwasanaethu. Rydym yn annog ymgeiswyr o ystod eang o gefndiroedd, a chanddynt wahanol sgiliau a phrofiadau i'w cynnig i'n sefydliad. Fel rhan o'n hymrwymiad i gryfhau amrywiaeth ein gweithlu, rydym yn darparu cynllun i warantu cyfweliad i ymgeiswyr sy'n cwrdd â lleiafswm anghenion y swydd, sy'n anabl, yn niwroamrywiol, neu'n dod o'r mwyafrif byd-eang.

I sicrhau bod ein proses gyfweld yn hygyrch i gynifer o ymgeiswyr ag y bo modd, byddwn yn anfon cwestiynau'r cyfweliad o flaen llaw at bob ymgeisydd, ynghyd â manylion am fformat y cyfweliad.








**Diogelu Data**

Bydd Music Theatre Wales yn casglu a phrosesu data personol a dderbyniwyd gennych chi er mwyn rheoli'r broses recriwtio. Bydd unrhyw ddata amdanoch chi mae MTW yn ei ddal yn cael ei storio'n ddiogel, gyda mynediad ato'n cael ei gyfyngu i'r rhai sy'n gweinyddu'r broses recriwtio. Bydd MTW yn cadw'ch data ar ffeil am chwe mis ar ôl diwedd y broses recriwtio. Er mwyn cynnal y broses recriwtio, bydd MTW yn rhannu'r data personol a dderbyniwyd gennych chi ymhlith y tîm gweinyddu, y panel sy'n llunio'r rhestr fer, a'r panel cyfweld. Cyfyngir mynediad i'r rhai hynny sy'n rhan o'r broses recriwtio.

Caiff MTW ei ariannu gan Gyngor Celfyddydau Cymru.

Cyngor Celfyddydau Cymru
Arts Council of Wales

ARIENNIR GAN Y LOTERI
LOTTERY FUNDED

Noddir gan Lywodraeth Cymru
Sponsored by Welsh Government